**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Children and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA181
Ein cyf/Our ref SF/GT/3472/12

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Tachwedd 2012

Annwyl David,

**CLA181 – Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref, ar ran y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ynghylch Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012.

Rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac fe hoffwn ddiolch i chi am eich sylwadau. Rwy'n cydnabod y sylw bod angen cynnwys "diffiniad clir o 'chwarae' sy'n cynnwys chwarae wedi'i strwythuro a chwarae dirwystr", yn y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol. Fel y gwyddoch, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n darparu'r sail ar gyfer y Rheoliadau. Yn Adran 11(6) o'r Mesur, diffinnir bod 'Chwarae' yn cynnwys "unrhyw weithgaredd hamdden".

Ym Mholisi Chwarae Llywodraeth Cymru 2002, nodir bod:

*"chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol".*

Mae fy swyddogion wedi trafod ac ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid wrth ddrafftio Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 ynghyd â'r Canllawiau Statudol cysylltiedig, er mwyn ymgorffori'r diffiniadau hyn ac amlinellu'n glir y gofynion ar gyfer chwarae rhydd a gweithgareddau hamdden strwythuredig yn yr asesiadau y bydd gofyn eu cynnal. Mae'r Adroddiad Cryno ar yr ymgynghoriad yn amlinellu ein hymateb i'r mater hwn.

Yn gywir,

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Children and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*